**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 18 Mehefin, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 21 Mehefin, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 28 Mehefin, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 29 Mehefin, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd)

R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Ymddiheuriadau**: Dim

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Councillors Aled M.Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Shaun Redmond, Peter Rogers

(10:00 y. b. tan 10:55 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 **Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Gorffennaf, 2018 i Chwefror, 2019 wedi ei diweddaru fel y'i chyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau trefniadau atebolrwydd a blaengynllunio.** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r canlynol -**<br><br>• **Y camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd.**<br>• **Cyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro gweithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 4, 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio am Chwarter 4 2017/18 a nodi ei gynnwys.**<br>• **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y cânt eu nodi yn adran 1.4 yr adroddiad.**<br>• **Derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad..** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnabod gwasanaethau sy'n tanberfformio** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Dogfen Cyflawni Blynyddol 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Derbyn y Ddogfen Cyflawni Blynyddol am 2018/19.**<br><br>• **Rhoi'r hawl i'r Swyddogion drwy law yr Aelod Portffolio i ymgymryd â'r dasg o orffen drafft terfynol y Ddogfen Cyflawni am 2018/19 ac argymell ei bod yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2018.**<br><br>• **Cadarnhau bod modd gwireddu'r ddogfen fel cynllun sydd yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol a'r gofyn statudol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Adroddiad Alldro Cyfalaf 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen Gyfalaf 2017/18 yn amodol ar archwiliad, a**<br>• **Chymeradwyo cario £9.348m drosodd i 2018/19 ar gyfer** |

| | |
|---|---|
| | tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2018/19. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro'r Gyllideb Gyfalaf am 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Symud dyddiad gweithredu'r rhybuddion statudol ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd oedi gyda'r canlynol tan 1 Ebrill, 2019 –**<br>• **Dyddiad gweithredu cynnig (1) i gwblhau Ysgol Santes Dwynwen.**<br>• **Dyddiad gweithredu cynnig (2) i newid statws Ysgol Parc y Bont.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo ymestyn dyddiadau gweithredu'r Rhybuddion Statudol**. |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo –**<br>• **Y dull o ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol gyda phwyslais ar ganlyniad wrth ddatblygu'r cynllun gwaith ar lefel rhanbarthol a lleol (Rhan 2 a 3 o'r adroddiad)**<br>• **Y dull o gyfathrebu wrth ddatblygu'r cynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a** |

| | |
|---|---|
| | **chymeradwyaeth terfynol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r dull a gymerwyd wrth ddatblygu'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

# EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â'r rhaglen hon i'r Aelod Portffolio ar sail anffurfiol ac ni fydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith onibai bod raid gwneud penderfyniadau ynghylch polisi neu gyllid neu mewn amgylchiadau lle mae'r Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Aelod Portffolio yn gofyn am i adroddiad/ penderfyniad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.**<br>• **Fel rhan o'r rhaglen, bydd y 4ydd, 5ed a'r 6ed teulu yn cael eu hail-sefydlu mewn ardaloedd yn seiliedig ar y ffactorau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |